



Consortium for Research in Deaf Education

## Adroddiad Cymru 2018

### Adroddiad CRIDE ar arolwg 2017/18 ar ddarpariaeth addysgol i blant byddar yng Nghymru

#### Cyflwyniad

Yn 2018 cynhaliodd Y Consortiwm Ymchwil i Addysg Fyddar (CRIDE) ei wythfed arolwg blynyddol ar staffio addysgol a'r gwasanaeth a ddarparwyd i blant byddar<sup>1</sup> ym mlwyddyn academiaidd 2017/18<sup>2</sup>. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu canlyniadau arolwg Cymru ac fe'i bwriedir ar gyfer penaethiaid gwasanaethau, llunwyr polisi mewn llywodraeth leol a chanolog ac unrhyw un sydd â diddordeb mewn addysg fyddar.

Mae'r dadansoddiad yn yr arolwg hwn wedi'i seilio ar ymatebion gan 15 o wasanaethau yng Nghymru, yn cynrychioli 22 o ardaloedd awdurdod lleol sydd yn gyfradd ymateb o 100%.

Dymuna CRIDE achub ar y cyfle i ddiolch i bob un o'r gwasanaethau am ymateb i'r arolwg, yn enwedig o ystyried y cyfyngiadau amser sylweddol sydd gan nifer fawr o'r gwasanaethau.

#### Crynodeb o'r prif ganfyddiadau

- Mae o leiaf 2,625 o blant byddar yng Nghymru; gostyngiad cofnodedig o 0.6% dros y flwyddyn ddiwethaf.
- Mae o leiaf 62.8 swydd Athro Plant Byddar, a 2% o'r rhain yn wag. O'r 61.8 aelod o staff yn gweithio fel Athrawon Plant Byddar, roedd 91% ohonynt yn meddu ar y cymhwyster gorfodol a 9% ohonynt o dan hyfforddiant.
- Bu gostyngiad o 2% yn nifer yr Athrawon Plant Byddar cymwysedig (yn gweithio mewn swydd beripategig a/neu mewn darpariaeth adnoddau neu golegau neu ysgolion arbennig nad ydynt ar gyfer plant byddar yn benodol) mewn cyflogaeth dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae wedi gostwng 22% ers i arolwg CRIDE ddechrau yn 2011.
- Mae 25 o ddarpariaethau adnoddau ledled Cymru, dinewid ers y llynedd.
- Dywedodd 40% o wasanaethau eu bod yn darparu cymhorthion radio/dyfeisiau gwranddo cynorthwyol i deuluoedd sydd â phlentyn byddar oedran cyn ysgol er mwyn iddynt eu defnyddio gartref.

#### Dehongli'r canlyniadau

1 At ddibenion yr arolwg hwn, diffiniwyd 'plant byddar' fel pob plentyn a pherson ifanc hyd at 19 mlwydd oed â byddardod synwyrnerfol a dargludol parhaol yn ôl disgrifiyddion Cymdeithas Awdioleg Prydain a BATOD. Defnyddiwn y gair 'byddar' i gynnwys pob lefel o fyddardod, o fân i lwyr.

2 Gellir dod o hyd i adroddiadau blaenorol ar wefan Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar yn [www.ndcs.org.uk/CRIDE](http://www.ndcs.org.uk/CRIDE) neu ar wefan BATOD yn <https://www.batod.org.uk/information/cride-reports/>.

Gofynnwyd i wasanaethau ddarparu ffigurau am y sefyllfa ar Ionawr 31 2018.

Mae'r arolwg yn cydnabod nad yw'r blychau a'r opsiynau a ddarparwyd bob tro yn ddigonol i ddisgrifio'r gwasanaethau a'r plant. Roedd gan wasanaethau'r cyfle i nodi sylwadau neu i egluro lle bu angen trwy'r arolwg. Nodir gan yr adroddiad hwn materion penodol a ddaeth i'r amlwg mewn rhai ardaloedd.

Mae'n amlwg bod llawer o wasanaethau dal i gofnodi anawsterau wrth dynnu data am blant byddar yn eu hardal ac mae anghysondebau o hyd yn y modd y mae gwahanol gwestiynau yn cael eu hateb trwy'r arolwg. Weithiau mae'r gyfradd ymateb i gwestiynau unigol yn amrywio. **Felly dylid parhau i ddefnyddio'r canlyniadau â gofal.** Amlygwyd unrhyw wahaniaethau o bwys rhwng canfyddiadau'r arolwg hwn a chanfyddiadau arolygon blaenorol yn yr adroddiad. Mae'n rhaid bod yn ofalus hefyd oherwydd gwahaniaethau mewn cyfraddau ymateb i gwestiynau unigol a chamgymeriadau posibl yn narpariaeth y data rhwng yr arolygon.

Noder bod pob canran wedi'i thalgrynnu i fyny neu i lawr i'r rhif cyfan agosaf.

## Cynnwys

RHAN 1: Plant byddar yng Nghymru.....	3
RHAN 2: Athrawon Plant Byddar .....	4
RHAN 3: Cefnogaeth a ddarperir .....	9
RHAN 4: Cwestiynau thematig: Cefnogaeth blynyddoedd cynnar .....	11
RHAN 5: Cwestiynau thematig: Trefniadau mynediad .....	12
RHAN 6: Cefndir a methodoleg.....	13
Atodiad: Gwybodaeth yn ôl awdurdod lleol.....	14

# RHAN 1: Plant byddar yng Nghymru

## Faint o blant byddar sydd?

Yn 2018, gofynnwyd i wasanaethau roi manylion am blant byddar sy'n byw yn yr ardal ddaearyddol lle mae eu gwasanaeth yn gweithredu<sup>3</sup>.

Yn ddiweddarach rhoddodd 23% o wasanaethau ffigwr am nifer y plant sy'n cael eu cefnogi gan y gwasanaeth a oedd yr un peth a'r nifer a oedd yn byw yn yr ardal. Mae CRIDE yn parhau i bryderu bod rhai o'r gwasanaethau heb wybodaeth ddibynadwy am nifer y plant byddar sy'n byw yn eu hardal a/neu eu bod dim ond yn darparu ffigyrau am nifer y plant sy'n byw yn eu hardal eu bod nhw yn cefnogi'n weithredol – h.y. nid yw plant sydd ddim yn derbyn cefnogaeth yn cael eu cofnodi gan nad yw'r gwasanaeth yn eu hadnabod.

Ymatebodd pob un o'r 15 gwasanaeth i'r cwestiwn hwn. Yn seiliedig ar ymatebion hyn, **cyfanswm y plant byddar yng Nghymru yw 2,625**. Mae'r ffigur hwn wedi gostwng ychydig o 2,642 yn 2016/17 sydd yn ostyngiad o 0.6% dros y flwyddyn ddiwethaf.

Adroddodd y gwasanaeth lleiaf fod 64 o blant byddar yn byw o fewn ei ffiniau. Adroddodd y gwasanaeth mwyaf 443 o blant byddar. Y nifer cyfartalog o blant byddar sy'n byw mewn pob gwasanaeth oedd 175.

Cymhara'r tabl dilynol gyfanswm y plant byddar sy'n byw yng Nghymru â ffigurau o flynyddoedd blaenorol. Fel yr amlinellir yn y cyflwyniad, dylid defnyddio gofal wrth wneud cymariaethau ag adroddiadau cynharach oherwydd gwahaniaethau yn ansawdd yr ymatebion a'r cyfraddau ymateb rhwng yr adroddiadau.

Tabl 1: Nifer y plant byddar a gofnodwyd, dros sawl blwyddyn yn olynol<sup>4</sup>

	Nifer y plant a gofnodwyd
CRIDE 2018	2,625
CRIDE 2017 (cyfanswm wedi'i addasu)	2,642
CRIDE 2016	2,374
CRIDE 2015 (cyfanswm wedi'i addasu)	3,288
CRIDE 2014	2,880
CRIDE 2013 (cyfanswm wedi'i addasu)	2,904
CRIDE 2012 (cyfanswm wedi'i addasu)	2,743
CRIDE 2011 (cyfanswm wedi'i addasu)	2,755

## Nifer y plant byddar ar lwythi achos gwasanaethau

<sup>3</sup> Gofynnwyd i wasanaethau: Sawl plentyn sydd â byddardod parhaol sy'n byw yn yr ardal ddaearyddol lle mae'ch gwasanaeth yn gweithredu? Dylai'r atebion gynnwys: pob plentyn sydd â byddardod synwyrnerfol neu ddargludol parhaol unochrol neu ddwyochrol, ar bob lefel o fân i lwyr, yn defnyddio disgrifyddion BSA/BATOD. Ni ddylid cynnwys plant sydd â byddardod dros dro yn eich ymateb i'r cwestiwn hwn. Pob plentyn byddar, ni waeth p'un ai ydynt yn derbyn cymorth gan y gwasanaeth. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd gyfreithiol i gasglu'r wybodaeth hon. Plant sy'n mynychu darpariaeth addysgol y tu allan i'ch ardal ond sydd fel arfer yn byw o fewn eich ardal. Noder at ddibenion adran hon yr arolwg, defnyddiwn y term 'plant' i gynnwys plant a phobl ifanc hyd at 19 mlwydd ac 11mis (oni nodir yn wahanol yn y cwestiwn). Noder hefyd defnyddiwn y term byddardod parhaol i gynnwys y plant hynny sydd â syndrom sydd yn cynnwys byddardod dargludol parhaol, microtia/atresia, camffurfiad y glust ganol, neu'r rheini sydd wedi cael llawdriniaeth ar y glust ganol fel mastoidectomi. Mae hefyd yn cynnwys y plant hynny sydd â chlust ludiog na ddisgwylir iddynt 'dyfu allan' o'r anhwylder cyn iddynt gyrraedd 10 oed, fel y rheini a anwyd gyda thafod hollt, Syndrom Down, ffibrosis systig, neu dycinesia blewynnol cychwynnol.

O dan fyddardod dargludol dros dro, cynhwyswn y plant hynny sydd â chlust ludiog sydd wedi derbyn cymhorthion clyw yn lle llawdriniaeth i osod gromed ond disgwylir iddynt 'dyfu allan' o'r anhwylder cyn iddynt gyrraedd 10 oed.

<sup>4</sup> Yn y blynyddoedd pan rydyn ni'n ymgymryd ag arolwg llawn, cyfrifir cyfanswm 'wedi'i addasu' am nifer y plant byddar. Mae hyn oherwydd, mewn rhai ardaloedd, gall cyfansymiau nifer y plant byddar amrywio o fewn ymateb. Yn adroddiadau'r arolygon hyn, rydyn ni wedi penderfynu defnyddio'r ffigwr uchaf a rhoddwyd, nail ai'r cyfanswm terfynol neu gyfanswm y ffigyrau wedi'u dadansoddi.

Gofynnodd CRIDE hefyd am blant byddar ar lwythi achos gwasanaethau, yn gofyn am ffigurau am blant sy'n derbyn rhyw fath o gefnogaeth **mwyr nag unwaith y flwyddyn**. Mae enghreifftiau o gefnogaeth yn cynnwys addysgu uniongyrchol, ymweliadau i'r teulu neu'r ysgol, cyswllt â'r teulu, ysgol ac athrawon, gwirio teclynnau clyw, ayb. Roedd gwasanaethau hefyd yn gallu cynnwys plant oedd yn derbyn cymorth gan y gwasanaethau ond nad oeddent yn byw o fewn yr un ardal ddaearyddol â'r gwasanaeth hynny. Cynhwysir plant â byddardod dros dro yn y cwestiwn hwn hefyd.

Yn seiliedig ar ymatebion gan bob un o'r 15 gwasanaeth, awgryma ymatebion yr arolwg fod o leiaf 4,258 o blant byddar â byddardod parhaol neu dros dro ar lwythi achos gwasanaethau. Y nifer lleiaf o blant ar lwythi achos oedd 40 a'r uchaf oedd 1,229. Y cyfartaledd oedd 284 o blant. Ymddengys bod hyn yn gynydd o 3,968 o blant ar lwythi achos yn 2017, pan dderbyniwyd ymatebion gan bob un o'r 15 gwasanaeth.

Gofynnodd CRIDE i wasanaethau am nifer y plant ar eu llwythi achos a oedd â byddardod dargludol dros dro. Ymatebodd pob un o'r 15 gwasanaeth i'r cwestiwn hwn a chofnodwyd bod yna 2,000 o blant â byddardod dargludol dros dro a gefnogwyd gan wasanaethau yr oeddent yn gallu dweud wrthym amdanynt.

Os oes 2,625 o blant â byddardod parhaol yn byw yng Nghymru a 2,258 ohonynt ar lwythi achos gwasanaethau gyda byddardod parhaol, mae yna o leiaf 367 o blant byddar sydd ddim yn cael eu cefnogi gan y gwasanaeth mwr nag unwaith y flwyddyn. Hynny yw, awgryma'r ffigurau fod 86% o blant sydd â byddardod parhaol yn derbyn cymorth gan eu gwasanaeth lleol. Nid yw'n dilyn yn awtomatig bod 14% o blant sydd â byddardod parhaol ddim yn derbyn unrhyw gymorth o gwbl; efallai fod nifer fawr ohonynt yn derbyn cefnogaeth unwaith y flwyddyn gan wasanaeth neu o rywle arall, er enghraifft, gan ddarpariaeth adnoddau nad ydynt yn cael eu rheoli gan y gwasanaeth.

### **Sut mae ffigurau CRIDE 2018 yn cymharu â ffigurau'r Cyfrifiad Ysgol?**

Oherwydd y gwahaniaethau mewn sut casglwyd y data, y gwahanol ddiffyniadau a ddefnyddiwyd a'r gwahaniaeth yn nifer yr ardaloedd lle casglwyd data, awgrym CRIDE yw bod y ffigurau dilynol yn cael eu defnyddio fel sylfaen ar gyfer trafodaeth a dadansoddiad pellach, yn hytrach nag er mwyn dod i gasgliadau pendant.

Yn seiliedig ar yr ymatebion i arolwg CRIDE, cyfanswm y plant byddar yng Nghymru yw 2,625. Ond dengys ffigurau Cyfrifiad Ysgol Llywodraeth Cymru fod 3,290 o ddisgyblion â nam ar eu clyw (a bod gan 165 o'r rheini nam amlsynwyr). Dylid nodi nad yw data Llywodraeth Cymru bellach yn dangos a yw'r nam ar y clyw yn brif angen neu'n angen eilaidd. Awgryma'r ffigurau hyn fod gwasanaethau yn tangofnodi nifer y plant byddar sydd yn eu hardal yn eu hymatebion i CRIDE.

## **RHAN 2: Athrawon Plant Byddar**

Holodd yr arolwg am nifer yr Athrawon Plant Byddar sy'n gweithio mewn gwahanol leoliadau, yn cynnwys y rheini mewn swydd beripatetig, yn gweithio mewn darpariaethau adnoddau a/neu'n gweithio mewn coleg neu ysgol arbennig nad ydynt ar gyfer plant neu bobl ifanc byddar yn benodol.

Mynege'r ffigurau fel swyddi Cyfwerth ag Amser Llawn (CALI); er enghraifft, gall swydd Athro Plant Byddar CALI 0.5 awgrymu bod person yn gweithio fel Athro Plant Byddar am hanner 'wythnos waith' safonol.

Cyfanswm yr Athrawon Plant Byddar cymwysedig sydd mewn cyflogaeth yng Nghymru yn gweithio mewn swydd beripatetig, mewn darpariaethau adnoddau a/neu mewn coleg neu ysgol arbennig nad ydynt ar gyfer plant neu bobl ifanc byddar yn benodol yw o leiaf 56.425 CALI.

Yn gyfan gwbl, mae yna o leiaf 61.825 athro sy'n gweithio fel Athrawon Plant Byddar yng Nghymru. Llenwir 91% o'r swyddi hyn gan Athro Plant Byddar cymwysedig gyda'r 9% o'r swyddi sy'n weddill wedi'u llenwi gan athrawon sydd o dan hyfforddiant. Ni chofnodwyd unrhyw athro heb y cymhwyster gorfodol ac sydd ddim o dan hyfforddiant yn gweithio fel Athro Plant Byddar.

Pan gyflawnir yr arolwg, bu 1 swydd wag CALI. Os ychwanegir y swydd wag at gyfanswm yr Athrawon Plant Byddar sydd mewn cyflogaeth, dengys fod o leiaf 62.825 swydd Athro Plant Byddar, gyda 2% ohonynt yn wag.

Mae'r tabl isod yn darparu dadansoddiad yn ôl y math o leoliad.

*Tabl 2: Nifer yr Athrawon Plant Byddar mewn cyflogaeth yn gyffredinol*

	<b>Yn gweithio'n bennaf fel Athro Plant Byddar peripatetig (cyfanswm a chanran)</b>	<b>Yn gweithio'n bennaf mewn darpariaeth adnoddau (cyfanswm a chanran)</b>	<b>Yn gweithio'n bennaf mewn coleg neu ysgol arbennig nad ydynt ar gyfer plant neu bobl ifanc byddar yn benodol (cyfanswm a chanran)</b>	<b>Yn gweithio'n hyblyg fel Athro Plant Byddar peripatetig, mewn darpariaeth adnoddau ac/neu mewn coleg neu ysgol arbennig nad ydynt ar gyfer plant neu bobl ifanc byddar yn benodol (cyfanswm a chanran)</b>	<b>Swyddi Athro Plant Byddar yn gyffredinol (cyfanswm a chanran)</b>
Athrawon Plant Byddar gyda'r cymhwyster gorfodol	29.5 (88%)	25.325 (95%)	1 (100%)	0.6 (100%)	56.425 (91%)
Athrawon o dan hyfforddiant ar gyfer y cymhwyster gorfodol o fewn 3 blynedd	4 (12%)	1.4 (5%)	0 (0%)	0 (0%)	5.4 (9%)
Cyfanswm	33.5 (100%)	26.725 (100%)	1 (100%)	0.6 (100%)	61.825 (100%)

Mae'r tabl canlynol yn edrych ar y newidiadau yn nifer yr Athrawon Plant Byddar cymwysedig mewn cyflogaeth a swyddi dros flynyddoedd olynol.

Dylid nodi bod yn 2017, dechreuodd CRIDE ofyn am Athrawon Plant Byddar sy'n gweithio'n bennaf mewn coleg neu ysgol arbennig nad ydynt ar gyfer plant neu bobl ifanc byddar yn benodol. O ganlyniad, nid yw'n bosib cymharu ffigurau 2017 a 2018 gyda'r rheini o flynyddoedd blaenorol yn uniongyrchol. Ond, mae'n ddiddorol i nodi ni chynhyrchwyd cynnydd yn nifer yr Athrawon Plant Byddar trwy gynnwys y ffigurau hyn yn y ddwy flynedd.

Tabl 3: Newidiadau yn nifer yr Athrawon Plant Byddar o flwyddyn i flwyddyn

	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017	2018
Athrawon Plant Byddar gyda'r cymhwyster gorfodol mewn cyflogaeth	71.95	91.75	66.5	67.0	69.86	65.45	57.63	56.425
Athrawon Plant Byddar gyda'r cymhwyster gorfodol mewn cyflogaeth <b>neu</b> o dan hyfforddiant	73.95	100.55	71.5	69.2	73.66	69.25	60.33	61.825
Nifer yr athrawon sy'n gweithio fel Athrawon Plant Byddar mewn cyflogaeth	75.95	100.55	71.5	70.2	74.26	69.25	60.73	61.825
Nifer y swyddi gwag	0	0	3	0.6	0.8	1	3.9	1
Nifer y swyddi Athrawon Plant Byddar (yn cynnwys swyddi gwag)	75.95	100.55	74.5	70.8	75.06	70.25	64.63	62.825

Tabl 4: Newid canrannol yn nifer yr Athrawon Plant Byddar

	Newid canrannol dros y 7 mlynedd diwethaf (rhwng 2010/11 a 2017/18)	Newid canrannol dros y flwyddyn ddiwethaf (rhwng 2016/17 a 2017/18)
Athrawon Plant Byddar gyda'r cymhwyster gorfodol mewn cyflogaeth	-22%	-2%
Athrawon Plant Byddar gyda'r cymhwyster gorfodol mewn cyflogaeth <b>neu</b> o dan hyfforddiant	-16%	+2%
Nifer yr athrawon sy'n gweithio fel Athrawon Plant Byddar mewn cyflogaeth	-19%	+2%
Nifer y swyddi Athrawon Plant Byddar (yn cynnwys swyddi gwag)	-17%	-2%

Edrychodd CRIDE ar sawl gwasanaeth oedd wedi gweld newid i nifer yr Athrawon Plant Byddar o fewn y flwyddyn ddiwethaf a gwelwyd bod 5 gwasanaeth (33%) wedi gweld cynnydd, 7 (40%) gwasanaeth heb weld unrhyw newid tra bod 3 gwasanaeth (20%) wedi gweld lleihad.

Gofynnodd CRIDE a oedd gwasanaethau wedi cael anawsterau wrth recriwtio Athrawon Plant Byddar neu ddarparu athrawon llanw dros y 12 mis diwethaf. Cofnododd 1 gwasanaeth (7%) anawsterau wrth recriwtio i swydd barhaol tra cofnododd 3 (20%) dim anawsterau, gydag 11 gwasanaeth (73%) yn nodi bod y cwestiwn hwn yn amherthnasol iddynt. Cofnododd 7 gwasanaeth (47%) anawsterau wrth recriwtio athrawon llanw ac 1 (7%) yn cofnodi dim anawsterau, gyda 7 gwasanaeth (47%) yn nodi bod y cwestiwn

hwn yn amherthnasol iddynt. Wrth gyfuno'r ffigyrau, cofnododd 7 gwasanaeth (47%) anawsterau wrth recriwtio i **naill ai** swyddi parhaol neu lanw.

Mae'r adrannau dilynol yn edrych yn fwy manwl at nifer yr Athrawon Plant Byddar sy'n gweithio mewn swydd beripatetig neu mewn darpariaeth adnoddau.

### **Athrawon Plant Byddar mewn swydd beripatetig**

Holodd yr arolwg am nifer yr Athrawon Plant Byddar a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth peripatetig arbenigol o Ionawr 2018 ymlaen. Hynny yw, sawl Athro Plant Byddar 'ymweld' a oedd yn gweithio ym mhob gwasanaeth. Mae Athrawon Plant Byddar ymweld fel arfer yn ymweld â phlant byddar mewn darpariaeth 'anarbenigol' – h.y. plant byddar oedran cyn ysgol, plant byddar mewn ysgolion prif ffrwd neu mewn ysgol arbennig nid ar gyfer plant byddar yn benodol.

*Tabl 5: Nifer yr Athrawon Plant Byddar ymweld mewn cyflogaeth*

	<b>Nifer yr athrawon</b>	<b>Canran</b>	<b>Nifer y gwasanaethau gyda staff mewn categori perthnasol</b>
Athrawon Plant Byddar gyda'r cymhwyster gorfodol	29.5	88%	14
Athrawon o dan hyfforddiant ar gyfer y cymhwyster gorfodol o fewn 3 blynedd	4	12%	4
Athrawon cymwysedig heb y cymhwyster gorfodol ac nad ydynt o dan hyfforddiant	0	0%	0
<b>Cyfanswm</b>	<b>33.5</b>		

Mae'r cyfanswm o 33.5 Athro Plant Byddar peripatetig wedi cynyddu o 1.7 (neu 5%) o 31.8 yn 2016/17. Adroddodd 1 gwasanaeth swyddi gwag yn y gwasanaeth peripatetig o Ionawr 2018 ymlaen, sy'n dod i 1 swydd. Yn nhermau Athrawon Plant Byddar ymweld cymwysedig, roedd y ffigyrau o fewn pob gwasanaeth yn amrywio o 0 i 6. Y nifer cyfartalog o Athrawon Plant Byddar ymweld (gyda'r cymhwyster gorfodol) mewn pob gwasanaeth oedd 2.

Roedd 9 gwasanaeth yn cyflogi 2 Athro Plant Byddar ymweld neu lai, ac o'r rheini, roedd 5 gwasanaeth yn cyflogi 1 Athro Plant Byddar ymweld neu lai.

### **Athrawon Plant Byddar mewn darpariaeth adnoddau**

Holodd yr arolwg am nifer yr Athrawon Plant Byddar a oedd yn gweithio mewn darpariaethau adnoddau ar gyfer plant byddar. Gofynnwyd i ymatebwyr i beidio â chynnwys amser a dreuliodd ar ddyletswyddau ysgol eraill (fel amser fel Cydlynnydd AAA'r ysgol, er enghraifft).

Tabl 6: Nifer yr Athrawon Plant Byddar mewn darpariaethau adnoddau

	Nifer yr Athrawon	Canran	Nifer y gwasanaethau gyda staff mewn categori perthnasol
Athrawon Plant Byddar gyda'r cymhwyster gorfodol	25.325	95%	10
Athrawon o dan hyfforddiant ar gyfer y cymhwyster gorfodol o fewn 3 blynedd	1.4	5%	2
Athrawon cymwysedig heb y cymhwyster gorfodol ac nad ydynt o dan hyfforddiant	0	0%	0
Cyfanswm	26.725		

Mae'r cyfanswm o 26.725 o Athrawon Plant Byddar mewn darpariaeth adnoddau wedi gostwng o 1.205 (neu 4%) o 27.93 yn 2016/17.

Ni chofnodir unrhyw swyddi Athrawon Plant Byddar gwag mewn darpariaeth adnoddau o Ionawr 2018 ymlaen.

Nododd un gwasanaeth fod darpariaeth adnoddau yn ei ardal ond ni ddywedodd wrthym sawl Athro Plant Byddar a gyflogir mewn darpariaethau adnoddau.

#### **Athrawon Plant Byddar sy'n gweithio yn bennaf mewn coleg neu ysgol arbennig nad ydynt ar gyfer plant neu bobl ifanc byddar yn benodol**

Gofynnodd CRIDE i wasanaethau a oedd ganddynt Athrawon Plant Byddar a oedd yn gweithio yn bennaf mewn coleg neu ysgol arbennig nad ydynt ar gyfer plant neu bobl ifanc byddar yn benodol. Adroddodd un gwasanaeth fod ganddynt, gydag 1 Athro Plant Byddar CALL yn gweithio yn y modd hwn. Roedd hyn yr un peth yn 2016/17.

#### **Athrawon Plant Byddar yn gweithio'n hyblyg ar draws gwasanaethau peripatetig a lleoliadau addysg eraill**

Gofynnwyd i wasanaethau a oedd ganddynt Athrawon Plant Byddar yn gweithio'n hyblyg ar draws gwasanaethau peripatetig, darpariaethau adnoddau a/neu golegau/ysgolion arbennig nad ydynt ar gyfer plant neu bobl ifanc byddar yn benodol. Adroddodd 2 gwasanaeth fod ganddynt, gyda 0.6 Athro Plant Byddar yn gweithio yn y modd hwn. Mae hyn yn ostyngiad o 0.4 o 1 yn 2016/17.



## **RHAN 3: Cefnogaeth a ddarperir**

### **Lleoliad gwasanaethau**

Gofynnwyd i wasanaethau ble'r oeddent wedi'u lleoli. Dywedodd 14 gwasanaeth eu bod wedi'u lleoli o fewn yr awdurdod lleol, gydag un gwasanaeth yn nodi ei fod wedi'i lleoli o fewn yr awdurdod lleol ac mewn ysgol gyda darpariaeth adnoddau.

### **Nifer y darpariaethau adnoddau**

Gofynnwyd i wasanaethau am nifer y darpariaethau adnoddau (naill ai mewn ysgolion prif ffrwd neu arbennig) yn eu hardal. Roedd 13 darpariaeth adnoddau ar gyfer plant oedran ysgol gynradd. Roedd gan 10 gwasanaeth o leiaf un ddarpariaeth adnoddau oedran ysgol gynradd yn eu hardal. Roedd 12 darpariaeth adnoddau ar gyfer plant oedran ysgol uwchradd. Roedd gan 10 gwasanaeth o leiaf un ddarpariaeth adnoddau oedran ysgol uwchradd yn eu hardal.

Rhoddodd hyn gyfanswm o 25 darpariaeth adnoddau ledled Cymru. Roedd hyn o'r un cyfanswm o ddarpariaethau adnoddau â 2017.

### **Meini prawf cymhwyster/fframweithiau**

Gofynnwyd i wasanaethau a oedd unrhyw newidiadau wedi bod i'u dyraniad cymorth rhwng blynyddoedd academiaidd 2016/17 a 2017/18. Adroddodd 4 gwasanaeth (27%) fod newidiadau wedi bod a 11 (73%) dim newidiadau.

Lle bo gwasanaethau wedi cofnodi bod newidiadau wedi bod, roedd y rheini yn cynnwys:

- Lleihad yn nifer CALL Athrawon Plant Byddar
- Adolygiad cyllideb blynyddol yn arwain at leihad mewn dyraniadau nawdd am y flwyddyn (ond am gynyddu eto'r flwyddyn nesaf)
- Cefnogaeth lanw rannol yn unig ar gyfer cyfnod seibiant mamolaeth
- Dyraniad cymorth yn cael ei addasu dros dro oherwydd amgylchiadau fel salwch neu wyliau staff.

### **Trefniadau cyllido**

Gofynnwyd sut y cyllidir gwasanaethau cymorth arbenigol peripatetig ar gyfer plant 5 i 16 oed. Nododd 14 gwasanaeth (93%) fod y cyllid wedi'i reoli'n ganolog gan yr Awdurdod Lleol (gan gynnwys arian a reolir gan yr Awdurdod Lleol ar gyfer prynu gwasanaethau cymorth clyw gan Awdurdodau Lleol eraill, neu asiantaethau allanol e.e. SENSE). Dywedodd un gwasanaeth (7%) bod cyllid wedi'i ddirprwyo yn gyfan gwbl i ysgolion unigol o fewn yr Awdurdod Lleol sy'n penderfynu a ydynt am brynu cymorth arbenigol o'r Awdurdod Lleol.

Gofynnwyd i wasanaethau a oeddynt yn codi tâl am ddarparu gwasanaethau ar gyfer unrhyw blant neu bobl ifanc gyda datganiad AAA mewn gwahanol leoliadau addysg.

*Tabl 7: Codi tâl am wasanaethau ar gyfer plant gyda datganiad*

	<b>Nifer y gwasanaethau</b>	<b>Canran o wasanaethau</b>
Nid ydyw'r gwasanaeth yn codi tâl am unrhyw un o'r lleoliadau isod	14	93%
Lleoliad blynyddoedd cynnar	0	0%
Ysgolion prif ffrwd a ariennir gan y wladwriaeth	0	0%
Ysgolion prif ffrwd annibynnol	1	7%
Coleg neu ysgol arbennig nad ydynt ar gyfer plant byddar yn benodol	0	0%
Darparwyr ôl-16 eraill	1	7%
Arall	0	0%

Gofynnwyd i wasanaethau wedyn a oeddynt yn codi tâl am ddarparu gwasanaethau i unrhyw blant neu bobl ifanc sydd heb ddatganiad AAA mewn gwahanol leoliadau addysg.

*Tabl 8: Codi tâl am wasanaethau ar gyfer plant heb ddatganiad*

	<b>Nifer y gwasanaethau</b>	<b>Canran o wasanaethau</b>
Nid ydyw'r gwasanaeth yn codi tâl am unrhyw un o'r lleoliadau isod	13	87%
Lleoliad blynyddoedd cynnar	0	0%
Ysgolion prif ffrwd a ariennir gan y wladwriaeth	1	7%
Ysgolion annibynnol prif ffrwd	1	7%
Coleg neu ysgol arbennig nad ydynt ar gyfer plant byddar yn benodol	1	7%
Darparwyr ôl-16 eraill	1	7%
Arall	0	0%

## RHAN 4: Cwestiynau thematig: Cefnogaeth blynyddoedd cynnar

Gofynnwyd i wasanaethau a oeddynt wedi darparu cymhorthion radio/dyfeisiau gwranddo cynorthwyl i rieni plant byddar 0 i 4 oed er mwyn iddynt eu defnyddio gartref. Atebodd 6 gwasanaeth (40%) ie, ac atebodd 9 gwasanaeth (60%) na.

Gofynnwyd i wasanaethau hefyd a oeddynt wedi darparu cymhorthion radio/dyfeisiau gwranddo cynorthwyl i rieni plant byddar 0 i 4 oed er mwyn iddynt eu defnyddio o fewn lleoliad blynyddoedd cynnar. Atebodd 10 gwasanaeth (67%) ie, ac atebodd 5 gwasanaeth (33%) na.

Pan nododd gwasanaethau eu bod wedi'u darparu i blant 0 i 4 oed yn naill categori, gofynnwyd iddynt nodi a oedd unrhyw feini prawf cymhwyster, ffactorau neu amodau ar waith. Gall y meini prawf hyn cyfyngu nifer y plant byddar sy'n elwa o gymhorthion radio ym mhob ardal. Lle fu meini prawf neu amodau ar waith gan wasanaethau, roedd y rhain yn cynnwys:

- Gradd y golled clyw
- Rhaid bod gan y plentyn golled clyw synwyrnerfol neu golled clyw dargludol parhaol
- Rhaid i rieni roi cymhorthion radio ar yswiriant cartref, er gall achosion unigol gael eu trafod os yw'n broblem
- Rhaid bod plant yn ddefnyddwyr cymorth clyw neu fewnblaniad yn y cochlear sefydlog
- Trafodaeth gyda thîm awdioleg neu dîm mewnblaniad yn y cochlear y plentyn
- Gofynnwyd i rieni i brynu yswiriant trwy'r awdurdod lleol
- Rhaid i'r rhieni ymgymryd â hyfforddiant/bod rhieni yn barod ac yn gefnogol
- Amodau acwstig gartref neu yn y lleoliad blynyddoedd cynnar
- Rhaid bod gan y plentyn y sgiliau angenrheidiol i ddefnyddio'r cymhorthion radio (e.e. yn gallu dweud wrth oedolion pan nad yw'r system yn gweithio).

## RHAN 5: Cwestiynau thematig: Trefniadau mynediad

Gofynnwyd i wasanaethau am nifer y myfyrwyr byddar mewn blwyddyn 11 a fydd yn sefyll arholiadau cyhoeddus yn haf 2018. Roedd 13 gwasanaeth yn gallu darparu data, a oedd yn arwyddo 110 o fyfyrwyr.

Wedyn gofynnwyd i wasanaethau, ar gyfer sawl un o'r myfyriwr hyn oedd trefniadau mynediad (cysylltiedig i'w colled clyw) wedi'u gofyn amdanynt neu wedi'u trefnu, hyd y gwyddai'r gwasanaeth. Roedd 9 gwasanaeth yn gallu darparu data ar gyfer y cwestiwn hwn, yn arwyddo 39 o fyfyrwyr. Mynegodd 6 gwasanaeth eu bod nhw ddim yn meddu ar y wybodaeth hon.

Gofynnwyd i wasanaethau ddarparu gwybodaeth bellach am y trefniadau mynediad (cysylltiedig i golled clyw person ifanc) y gofynnwyd amdanynt neu a oedd wedi'u trefnu:

Tabl 9: Trefniadau mynediad

	Nifer y gwasanaethau lle y gofynnwyd am y trefniad mynediad hwn	Nifer y myfyrwyr hynny y gofynnwyd am drefniadau mynediad ar eu cyfer	Nifer y myfyrwyr hynny y gofynnwyd am drefniadau mynediad ar eu cyfer ond bod y trefniadau wedi cael eu gwrthod neu heb eu rhoi ar waith	Nifer y gwasanaethau oedd ddim yn meddu ar y wybodaeth hon
Amser ychwanegol	7	26	0	8
Addasydd Iaith Lafar	3	<5	0	8
Dehonglydd BSL	2	<5	0	8
Siaradwr byw	3	7	0	8
Darlennydd	2	<5	0	8
Arall	2	6	0	8

Er bod y tabl uchod yn galonogol gan fod nifer gymharol isel o drefniadau mynediad yn cael eu gwrthod neu heb eu rhoi ar waith, dylid nodi bod nifer fawr o wasanaethau wedi cydnabod nad oedd ganddynt y wybodaeth hon bob amser. Darparodd gwasanaethau ystod o sylwadau pellach am drefniadau mynediad ar gyfer myfyrwyr byddar. Roedd sylwadau yn cynnwys y themâu hyn:

- Mewn un achos, gwrthodwyd cais am amser ychwanegol gan y bwrdd arholi, ond gwrthdrowyd y penderfyniad yn dilyn llythyr gan yr Athro Plant Byddar
- Bu problemau cyfathrebu rhwng Cydlynnydd AAA ysgol a swyddogion arholi, ar ôl i rai disgyblion dderbyn trefniadau mynediad, ond doedd y swyddogion arholi ddim yn ymwybodol o hyn ar y diwrnod, a oedd yn golygu bod rhai disgyblion heb dderbyn eu gofynion
- Nid oedd rhai ysgolion yn gallu cyflawni gofynion am ystafell ar wahân oherwydd argaeledd staff a/neu ystafelloedd
- Yn dilyn trafodaethau gyda disgyblion a staff mewn ysgol, mae'r Athro Plant Byddar yn darparu adroddiad, ac mae'r seicolegydd addysgol yn cefnogi'r ysgol i sicrhau y caiff gofynion eu rhoi ar waith
- Darperir cyngor i ysgolion am anghenion trefniadau mynediad am ddisgyblion unigol, ond yr ysgol sy'n gwneud cais, ac nid ydynt yn rhoi gwybod i'r gwasanaeth am y canlyniad oni bai eu bod nhw am gael cymorth pellach gan y gwasanaeth
- Mae newidiadau i drefniadau mynediad at Addasydd Iaith Lafar wedi cael effaith negyddol ar fynediad at arholiadau ar gyfer disgyblion sy'n dewis modd llafar o gyfathrebu.

## RHAN 6: Cefndir a methodoleg

Mae CRIDE yn gonsortiw sy'n dod ag ystod o sefydliadau ac unigolion sydd â diddordeb cyffredin mewn gwella deilliannau addysgol plant byddar trwy ymchwil, at ei gilydd. Ar adeg anfon yr arolwg allan, yr oedd cynrychiolwyr yn cynnwys: Cymdeithas Brydeinig Athrawon Pobl Fyddar (BATOD), City, Prifysgol Llundain, Sefydliad y Glust, Y Sefydliad Ewing, Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar (NDCS), Partneriaeth Genedlaethol Nam ar y Synhwyr (NatSiP), cyn-bennaeth Ysgol Frank Barnes i Blant Byddar, Ysgol Mary Hare, y gwasanaeth addysg arbenigol i blant byddar yng Nghaint a Norfolk, Prifysgol Caeredin, Prifysgol Leeds a Choleg Prifysgol Llundain.

Dyluniwyd a chynlluniwyd yr arolwg gan aelodau CRIDE. Mae arolwg CRIDE yn defnyddio arolygon byrrach a llawn bob yn ail flwyddyn. Yn 2018, cyhoeddwyd arolwg byrrach.

Dosbarthwyd yr arolwg i wasanaethau yng Nghymru ym mis Chwefror 2018 gan staff Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar ar ran CRIDE. Gofynnwyd i wasanaethau ymateb erbyn Mawrth 26 2018. Lle na fu ymateb erbyn y dyddiad hwn, cysylltwyd â gwasanaethau trwy e-bost a/neu ffôn. Yn dilyn hyn, yn gam olaf, anfonwyd Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth i'r gweddill nad oeddynt wedi ymateb erbyn hynny.

Amlinellir y tabl isod cyfraddau ymateb yn ôl pob cyfnod.

*Tabl 10: Cyfradd ymateb i arolwg CRIDE yn ôl gwasanaethau*

	<b>Nifer yr ymatebion</b>	<b>Cyfanswm cronus</b>
Dyddiad cau cyntaf – Mawrth 26 2018	12	12
Yr ail ddyddiad cau ar ôl cyswllt	0	12
Dychwelwyd yn dilyn ceisiad Rhyddid Gwybodaeth	3	15

Roedd yn bosib i wasanaethau ymateb trwy gwblhau dogfen Word o'r arolwg. Ymgymrodd y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar â'r rhan fwyaf o'r dasg o ddadansoddi'r canlyniadau, gan ddefnyddio Excel, a llunio'r adroddiad, gyda chyfarwyddyd a chaniatâd gan aelodau CRIDE.

Hoffai CRIDE ddiolch i'r holl wasanaethau am gymryd yr amser i gwblhau'r arolwg ac am eu sylwadau a'u hadborth gwerthfawr, a ddefnyddir i lywio cynllun arolygon yn y dyfodol. Defnyddir canlyniadau'r arolwg hwn ar gyfer ymchwil, i ddylanwadu ar bolisiâu'r llywodraeth ac i ymgyrchu er mwyn diogelu cyllid a gwasanaethau ar gyfer plant byddar.

Os oes unrhyw adborth neu gwestiynau gennych am y canlyniadau, cysylltwch â [cride@ndcs.org.uk](mailto:cride@ndcs.org.uk).

## Atodiad: Gwybodaeth yn ôl awdurdod lleol

Amlinellir y tabl hwn rhai data unigol gan wasanaethau. Gofynnwyd i awdurdodau lleol ddarparu'r ffigurau am nifer y plant ac Athrawon Plant Byddar o Ionawr 31 2018 ymlaen.

Noder lle mae nifer y plant byddar mewn unrhyw gategori yn llai na 5, ymddengys '<5'.

Dylai cyfeiriadau at Athrawon Plant Byddar cynnwys y rheini sydd yn meddu ar y cymhwyster gorfodol neu sydd o dan hyfforddiant. Ni chynhwysir staff eraill sy'n gweithio fel Athro Plant Byddar ond heb y cymhwyster gorfodol ac nad ydynt o dan hyfforddiant yn y tabl.

Tabl 11: Data yn ôl awdurdod lleol

	Nifer y plant â byddardod parhaol sy'n byw o fewn yr ardal ddaearyddol lle mae eich gwasanaeth yn gweithredu	Nifer y plant â byddardod parhaol neu dros dro sydd ar lwyth achos eich gwasanaeth	Nifer y plant byddar â byddardod dros dro sydd ar lwyth achos eich gwasanaeth	Athrawon Plant Byddar sydd yn y gwasanaeth peripatetig arbenigol	Athrawon Plant Byddar sydd mewn darpariaeth adnoddau	Athrawon Plant Byddar yn bennaf mewn Ysgol neu goleg arbennig, nad ydynt ar gyfer plant byddar yn benodol	Athrawon Plant Byddar sy'n gweithio'n hyblyg
Pen-y-bont	166	222	56	2	1	0	0
Caerdydd	229	795	666	4.8	5	0	0
Sir Gaerfyrddin	140	199	54	2.2	3	0	0
Ceredigion	80	72	0	0.8	1	0	0
Conwy	74	75	<5	1	0	0	0.1
Gwynedd ac Ynys Môn	171	212	41	2	0	0	0
Merthyr Tudful	64	63	0	0	0	0	0.5
Castell-nedd Port Talbot	118	195	77	2	3	0	0
Gogledd Ddwyrain Cymru (Sir y Fflint, Sir Dinbych, Wrecsam)	283	306	37	3	4.225	0	0
Sir Benfro	70	98	29	1	0	0	0
Powys	110	139	29	2.6	0	0	0
Rhondda Cynon Taf	343	220	8	3.1	1	1	0
De Ddwyrain Cymru (Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Torfaen, Casnewydd)	443	1229	802	6	5	0	0
Dinas Abertawe	222	393	171	2	1.5	0	0
Bro Morgannwg	112	40	27	1	2	0	0